Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangrannog** a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ebrill 2023 yn Neuadd Pontgarreg / Zoom.

Minutes of **Llangrannog Community Council** Meeting held on Monday 4th of April 2023 at 7.30pm at Pontgarreg Hall /Zoom.

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Wendy Roberts (Cadeirydd) Gareth Jones, Heledd Clayton, Mair Evans, Morlais Davies, Deio Evans, Cynyr Ifan a'r Cynghorydd Sir Gareth Lloyd

**PRESENT:** Councillor Wendy Roberts (Chair) Councillors Gareth Jones, Heledd Clayton, Mair Evans, Morlais Davies, Deio Evans, Cynyr Ifan and County Councillor Gareth Lloyd

**(7.30- 8.20yh)**

**(7.30 – 8.20pm)**

**Materion Personol**

Trist iawn oedd cofnodi colli aelod o'r Cyngor, sef y Cynghorydd Lynn Davies. Talwyd teyrnged teilwng iddo gan y Caderiydd, y Cynghorydd Wendy Roberts.

Rhannodd y Cynghorydd Gareth Jones englynion o waith ei dad, Jon Meirion i gofio am y diweddar Lynn Davies. Penderfynwyd gosod yr englynion ar wefan y Cyngor Cymuned er cof am Lynn.

Fel arwydd o barch, cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am ein ffrind a chyd-aelod Lynn Davies, a wasanaethodd ar y Cyngor Cymuned am 45 o flynyddoedd.

**Personal Matters**

It is with great sadness we record the passing of a member of the Council, namely, Councillor Lynn Davies. The Chair, Councillor Wendy Roberts paid a fitting tribute to him.

Councillor Gareth Jones shared poems written by his father, Jon Meirion in memory of Councillor Lynn Davies. It was decided to post the poems in memory of Lynn on the Community Council's website.

A minute's silence was observed as a mark of respect for our friend and fellow member, Lynn Davies, who served on the Community Council for 45 years.

120 **Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Gari Jones.

120 **Apologies**
Councillor Gari Jones had sent his apologies as he was unable to attend.

121 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

121 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 122 | **Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 6ed o Fawrth** | 122 | **Minutes of the Meeting held on 6th of March** |
| | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a chynhaliwyd ar y 6ed o Fawrth yn gofnod cywir. | | The minutes of the meeting held on 6th of March were confirmed as a true record. |
| 123 | **Materion yn codi** | 123 | **Matters arising** |
| | 116.02 Problemau cyflenwad Dŵr ardal Pontgarreg - SA44 6AU.<br>Does dim diweddariad oddi wrth swyddfa AS Ben Lake eto, felly mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda nhw eto er mwyn gofyn a oes diweddariad. | | 116.02 Water disruptions – Pontgarreg area - SA44 6AU.<br>There is no update as yet from MP Ben Lake's office. The Clerk will contact them again to ask if they have received an update from Welsh Water. |
| | 116.03 Toiledau Cyhoeddus Llangrannog – Mae'r Cynghorwyr wedi gofyn i'r Clerc a oes unrhyw ymateb wedi bod gan y Cyngor Sir yn dilyn ein cais am ganiatâd i ddarparu toiledau dros dro yn y maes parcio ar gyrion pentref Llangrannog. Gan nad yw'r clerc wedi clywed yn ôl eto, bydd y clerc yn gofyn i'r Cynghorydd Gareth Lloyd gael diweddariad. | | 116.03 Public Toilets – Llangrannog.<br>Councillors have asked the Clerk if there has been any response from the County Council following our request for permission to provide temporary toilets in the car park on the outskirts of the village of Llangrannog. As the clerk has not heard back yet, the clerk will now ask Councillor Gareth Lloyd to seek an update. |
| 124 | **Adroddiad y Cynghorydd Sir** | 124 | County Councillor's Report |
| | Mae Ymgynghoriad Cyhoeddus ar newid y cyfyngder cyflymder o 30mya i 20mya ar agor. | | A Public Consultation on changing the speed limit from 30mph to 20mph is now open. |
| 125 | **Cyllid**<br>**CYTUNWYD i dalu'r canlynol;**<br>**Balans agoriadol £9,239.09**<br>125.01 Awdit Cymru 2020/21 - £243.00<br>125.02 Hyfforddiant Cynghorwyr - £35.00<br>126.03 Cyflog Clerc Ebrill - £153.55<br>127.04 HMRC Ebrill - £38.20<br>127.05 Awdit Cymru 2021/22 - £200.00 | 125 | Finance<br>It was AGREED to pay the following;<br>**Opening Balance £9,239.09**<br>125.01 Audit Wales 2020/21 - £243.00<br>125.02 Councillor Training - £35.00<br>126.03 Clerk Salary April - £153.55<br>127.04 HMRC April - £38.20<br>127.05 Audit Wales 2021/22 - £200.00 |
| | **Balwns wrth gau - £8,569.34** | | **Closing balance - £8,569.34** |
| 126 | **Ceisiadau Cynllunio** | 126 | **Planning Applications** |
| | 126.01 Nantybach, Llangrannog, SA44 6RN.<br>Dim gwrthwynebiad. | | 126.01 Nantybach, Llangrannog, SA44 6RN.<br>No objections. |
| 127 | **Ceisiadau am gymorth ariannol**<br>127.01 Pwll Nofio Aberaeron<br>127.02 Pencampwriaeth Aredig Cymru | 127 | **Request for financial assistance**<br>127.01 Aberaeron Swimming Pool<br>127.02 All Wales Ploughing Championships |

127.03 Pwll Nofio Aberteifi

Mae'r Cyngor Cymuned yn trafod ceisiadau am cymorth ariannol ym mis Medi a Mawrth felly CYTUNWYD i ohirio'r ceisiadau tan mis Medi.

127.03 Cardigan Swimming Pool

The Community Council discusses applications for financial aid in September and March so it was AGREED to postpone the applications until September.

128 **Gohebiaeth**

128.01 Adroddiad Blynyddol – fe wnaeth y Cadeirydd Wendy Roberts rhannu ei hadroddiad o flaen llaw gyda'r Cynghorwyr. CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad.

128.02 Hyfforddiant Cynghorwyr – nodwyd..

128.03 Digwyddiad Cranogwen - bydd dadorchuddio yn digwydd ar y 10fed o Fehefin, mwy o fanylion i ddilyn.

128.04 Casgliadau Gwastraff y Pasg – nodwyd.

128.05 Ymgynghoriad Gwasanaethau Dydd Cyngor Sir Ceredigion – annog y Cynghorwyr i rhannu'r manylion gyda'i cymdogion.

128 **Correspondence**

128.01 Annual Report 2022-23
Chair Wendy Roberts had previously shared her report with Councillors prior to the meeting. It was AGREED to accept the report.

128.02 Councillor Training – noted

128.03 Cranogwen Event – unveiling will take place on the 10th of June, further details to follow.

128.04 Waste Collections over Easter – noted.

128.05 Ceredigion County Council's Day Services Consultation – encourage Councillors to share the details with their neighbours.

129 **Materion i'w adrodd / digwyddiadau**

129.01 Cae'r Onnen, Llangrannog
Dymunai'r Cyngor Cymuned tynnu sylw'r Cyngor Sir at yr eiddo – Cae'r Onnen, Llangrannog sydd ar werth. Trafodwyd a ellid defnyddio'r eiddo fel Cartref Ymadfer ar gyfer cleifion sy ddim angen gofal meddygol mwyach mewn ysbyty, ond sy ddim digon da i fyw'n annibynnol eto? Trwy gynnig cartref ymadfer dros dro i'r bobl hyn, gellid rhyddhau gwelyau ysbyty a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y rhestrau aros ar gyfer llawdriniaethau.

Clerc i anfon y sylwadau at y Cyngor Sir a'r Aelod Cabinet perthnasol.

129.02 Bore Coffi Neuadd Pontgarreg – 08.04.23

129.03 Noson Bingo Neuadd Pontgarreg – 11.04.23

129.04 Digwyddiad lawnsio gwefan Cwilt360 – 22.04.23 am 3yp yn Neuadd Pontgarreg

129.05 Diffibriliwr Blaencelyn – angen bateri newydd – bydd y Cyngh Deio Evans yn anfon y manylion at y Clerc. CYTUNWYD i bwrcasu bateri newydd.

129 **Matters to report / events**

129.01 Cae'r Onnen, Llangrannog
The Community Council wished to bring to the attention of the County Council – Cae'r Onnen, Llangrannog which is for sale. It was discussed whether the property could be used as a Convalescent Home for patients who no longer need medical care in a hospital, but aren't well enough to live independently yet?
By offering these people a temporary convalescent home, hospital beds could be freed up which would lead to a reduction in waiting lists for operations.

The Clerk to forward observations to the County Council and to the relevant Cabinet member

129.02 Pontgarreg Hall Coffee Morning 08.04.23

129.03 Pontgarreg Hall Bingo Night – 11.04.23

129.04 Launch of Cwilt360 website 22.04.23 at 3pm in Pontgarreg Hall.

129.05 Defibrillator at Blaencelyn – needs a new battery. Cllr Deio Evans will send the information to the Clerk. It was AGREED to purchase a new battery.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 130 | **Materion i drafod ar agenda mis nesaf** | 130 | **Matters to discuss on next month's agenda** |
| 131 | **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**<br>Oherwydd Gwyl y Banc mi fydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 2ail o Fai 2023 am 7.30yh yn Neuadd Pontgarreg / Zoom. | 131 | **Arrangement for next meeting**<br>Due to the Bank Holiday the next meeting will be held on Tuesday the 2nd of May 2023 at 7.30pm at Pontgarreg Hall / Zoom. |